Senedd Cymru
**Swyddfa Breifat – Cysylltiadau Rhyngwladol**

# Fframwaith Rhyngwladol ar gyfer y Chweched Senedd

Medi 2022

“Mae bod yn sefydliad rhyngwladol uchel ei barch yn rhan bwysig o fod yn ddeddfwrfa genedlaethol, gan gyfrannu at gyfnewid gwybodaeth ac elwa o hyn, dod o hyd i gynghreiriaid a chynyddu’r dylanwad y gall y Senedd ei gael drwy waith craffu a chynrychiolaeth.”

https://senedd.cymru/media/h4vboc4x/cr-ld14323-w.pdf

## Gweledigaeth

Mae'r Senedd yn parhau i fod yn sefydliad arloesol, sy'n rhagori mewn meysydd fel dwyieithrwydd, tegwch rhwng y rhywiau, defnyddio technoleg i wella busnes seneddol, a chyfranogiad pobl ifanc.

Ein gweledigaeth yw bod y cymorth a ddarperir ar gyfer gweithgareddau rhyngwladol yn arddangos y cryfderau hyn ac yn cysylltu'n uniongyrchol â'n buddiannau polisi, ein buddiannau gweithdrefnol a’n buddiannau corfforaethol. Mae ein gweledigaeth yn edrych tuag allan, a hynny er mwyn gwella ymwybyddiaeth o’r Senedd drwy hyrwyddo ei gwaith. Mae hefyd yn nodi cyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth a chydweithio ar lefel ryngseneddol er budd pobl Cymru.

# 1. Cyflwyniad a Diben

Diben y fframwaith hwn yw sicrhau atebolrwydd, eglurder a chyfeiriad mewn perthynas â gweithgarwch seneddol rhyngwladol a ariennir gan Gomisiwn y Senedd. Yn hynny o beth, mae'n cefnogi'r cynllun cyflawni corfforaethol a'r adroddiadau blynyddol ar berfformiad. Bydd yn gweithredu fel sylfaen ar gyfer trefnu blaenoriaethau a mentrau, a bydd yn galluogi'r Comisiwn i ddangos sut mae'r sefydliad yn gweithio tuag at gyflawni'r canlyniadau a nodir. Mae diagram cryno wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

Mae'r fframwaith yn ceisio sicrhau bod y gwaith a wneir i gefnogi'r gweithgarwch hwn yn berthnasol ac yn adeiladol mewn perthynas â buddiannau amrywiol y Senedd, ac yn gymesur o ran y canlyniadau a ragwelir. Bydd yn hwyluso'r gwaith o gydgysylltu adnoddau'n effeithiol er mwyn cefnogi anghenion y Senedd, ynghyd â nodau a blaenoriaethau strategol y Comisiwn.

## Egwyddorion y Fframwaith Rhyngwladol

Mae'r fframwaith hwn yn seiliedig ar yr egwyddorion sydd ynghlwm wrth y ffaith y bydd ein gweithgareddau rhyngwladol:

**1.** Yn canolbwyntio ar fusnes y Senedd, gan alluogi'r Senedd i gyflawni ei swyddogaeth graidd, sef cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, drwy wella'r broses o gyfnewid gwybodaeth, syniadau a phrofiad; ac

**2.** Yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd meithrin enw da sefydliadol a rhyngwladol y Senedd drwy ymgysylltu a chydweithio, boed a yw'r gwaith hwnnw'n cael ei arwain gan Aelodau neu Bwyllgorau, neu a yw'n digwydd ar lefel swyddogion neu rhwng Seneddau.

Nid yw'r fframwaith hwn yn gwrthdaro ag unrhyw waith rhyngwladol y mae pwyllgorau unigol yn ei wneud fel rhan o'u gwaith polisi neu waith craffu deddfwriaethol. Bwriedir iddo ategu'r gweithgarwch hwnnw. O bryd i'w gilydd, bydd yn darparu cyfleoedd ychwanegol i Aelodau o'r Senedd ddatblygu gwybodaeth am bolisi, a chasglu tystiolaeth a gwybodaeth a allai lywio eu gwaith craffu ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru.

## Amcanion

Er mwyn cyflawni'r canlyniadau y mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol iddynt, mae amcanion y fframwaith yn golygu y dylai'r cymorth a ddarperir ar gyfer gweithgarwch rhyngwladol fynd i'r afael â'r eitemau a ganlyn:

1. Rhannu a Chaffael – yr arferion seneddol gorau yn rhyngwladol.

2. Codi proffil y Senedd – ar lwyfannau rhyngwladol.

3. Dylanwadu – deall penderfyniadau allanol a dylanwadu arnynt.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud

Byddwn yn nodi, yn cynllunio ac yn rhaglennu gweithgareddau â sefydliadau a rhwydweithiau allweddol, ynghyd â Seneddau a gwledydd / rhanbarthau eraill; byddwn yn dangos pam mae'r rhain yn strategol bwysig i'r Senedd; a byddwn yn adrodd ein hanesion niferus am eu heffaith.

Byddwn yn adeiladu ar waith sy'n mynd rhagddo, fel y Strategaeth Cyfnewid Gwybodaeth, ac yn gwneud cysylltiadau â Busnes y Senedd wrth hyrwyddo gweithgareddau ar gyfer y rhwydweithiau y mae'r Senedd yn rhan ohonynt. Byddwn yn sicrhau gwerth ychwanegol am arian drwy hwyluso'r mecanweithiau gorgyffwrdd ac adborth sy'n bodoli rhwng y gweithgarwch rhyngwladol a wneir o dan y fframwaith hwn a Busnes y Senedd, gan gynnwys gwaith y Pwyllgorau ac Aelodau unigol.

Byddwn yn datblygu dull cynlluniedig tymor hwy o wneud gwaith ymgysylltu a chynnal cysylltiadau dwyochrog. Bydd hyn yn cynnwys nodi cyfleoedd i gynnal gweithgareddau proffil uchel ar ystâd y Senedd, ynghyd ag archwilio cyfleoedd i gydweithio â Llywodraeth Cymru mewn gwledydd a rhanbarthau lle mae Llywodraeth Cymru yn meithrin cysylltiadau â'r Llywodraethau priodol, a lle mae'r Senedd efallai am ddatblygu cysylltiadau â'r deddfwrfeydd dan sylw.

Byddwn yn hyrwyddo'r Senedd, ynghyd â'i harferion a'i phrosesau, fel deddfwrfa hygyrch ac arloesol ymhlith Seneddau a sefydliadau rhyngwladol eraill. Byddwn yn datblygu pecyn o adnoddau i wella dealltwriaeth Seneddau eraill o waith y Senedd a'r Comisiwn, a'u gallu i gael mynediad at wybodaeth am ein harferion da o ran materion gweithdrefnol a chorfforaethol.

Byddwn hefyd yn hyrwyddo gwaith y Comisiwn mewn meysydd fel cynaliadwyedd, cydraddoldeb, dwyieithrwydd, arloesi digidol ac ymgysylltu â dinasyddion, gan gynnwys Senedd Ieuenctid Cymru, a byddwn yn ceisio arddangos a datblygu enw da'r Senedd, ac yn manteisio ar gyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth a phrofiad.

Byddwn yn nodi, yn hyrwyddo ac yn hwyluso cyfleoedd i'r Aelodau gymryd rhan mewn cyfleoedd rhyngwladol arbennig, megis rhaglenni Cymdeithas Seneddol y

Gymanwlad (CPA), yn ogystal â chyfleoedd i gwrdd â seneddwyr o ddirprwyaethau rhyngwladol sy'n ymweld â ni.

Byddwn yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus staff Aelodau o'r Senedd a staff y Comisiwn, gan ddatblygu eu gwybodaeth am bolisïau, gweithdrefnau a materion corfforaethol.

Byddwn yn darparu cyfleoedd i'r Aelodau ddeall penderfyniadau allanol sy'n effeithio ar waith y Senedd a dylanwadu arnynt (gan gynnwys rhwymedigaethau rhyngwladol y mae'r Senedd yn gyfrifol am eu rhoi ar waith), a chyfleoedd i godi materion ar lwyfannau rhyngwladol sy'n cael effaith sylweddol ar fywydau bob dydd pobl Cymru.

Byddwn yn datblygu dull gweithredu sy'n cysylltu'r cymorth a ddarperir ar gyfer y gwahanol ffrydiau o waith ym maes Cysylltiadau Rhyngseneddol (ymgysylltu o fewn y DU ac Ewrop), a hynny fel y gellir cydgysylltu a chefnogi'r strwythurau a'r perthnasoedd hyn mewn ffordd sy'n cynyddu cwmpas y dewisiadau gwleidyddol gwybodus sydd ar gael, gan ganiatáu i Aelodau gynrychioli buddiannau pobl Cymru mewn modd effeithiol.

Byddwn yn gweithio fel tîm integredig ar draws y meysydd gwasanaeth er mwyn gwella ein prosesau cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth mewnol, a byddwn yn arddel ymagwedd strategol o ran cydlynu ac alinio'r gwaith rhyngwladol a wneir â'r egwyddorion a'r amcanion y cytunwyd arnynt.

## Hyrwyddo, Adrodd a Chanlyniadau

Byddwn yn cyfathrebu'n rheolaidd am y gweithgarwch rhyngwladol sy'n digwydd, a hynny er mwyn codi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth yn ehangach drwy ddulliau hyblyg o ymgysylltu mewnol ac allanol, megis adroddiadau gwell ar ymweliadau a gynhelir, a blogiau ac erthyglau gwadd.

Wrth i'r Aelodau ymgymryd â gweithgarwch rhyngwladol, bydd disgwyliad parhaus arnynt i ddarparu adroddiadau ac adnoddau ymgysylltu, fel blogiau fideo, er mwyn disgrifio'r gwaith sy'n cael ei wneud. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi pob adroddiad sy'n ymwneud ag ymweliad allanol, gan nodi unrhyw gamau gweithredu neu bwyntiau dysgu sy'n codi.

Byddwn yn sicrhau bod prosesau cydgysylltiedig ar waith ar gyfer adrodd yn ôl mewn ffyrdd ystyrlon ynghylch gweithgareddau a gyflawnir at ddibenion llywio Busnes y Senedd, a chodi proffil y gwaith rhyngwladol yr ydym yn ei wneud â sefydliadau a rhanddeiliaid allanol.

Bydd yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r fframwaith yn cael eu gwerthuso'n gyson a'u cofnodi'n ffurfiol, o ran y modd y maent yn cefnogi cynllun cyflawni corfforaethol y Comisiwn a’i adroddiadau blynyddol.

Bydd gwefan y Senedd yn cynnwys tudalen a fydd yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer unrhyw waith rhyngwladol perthnasol. Bydd yn cynnwys manylion ynghylch gweithgareddau’r Aelodau, gan gynnwys adroddiadau, a bydd hefyd yn darparu trosolwg o weithgareddau rhyngwladol ar draws gwasanaethau'r Comisiwn.

# 2. Atodiad A – Diagram cryno

*“Mae bod yn sefydliad rhyngwladol uchel ei barch yn rhan bwysig o fod yn ddeddfwrfa genedlaethol, gan gyfrannu at gyfnewid gwybodaeth ac elwa o hyn, dod o hyd i gynghreiriaid a chynyddu’r dylanwad y gall y Senedd ei gael drwy waith craffu a chynrychiolaeth.”*

**Gweledigaeth**

Mae'r Senedd yn parhau i fod yn sefydliad arloesol, sy'n rhagori mewn meysydd fel dwyieithrwydd, tegwch rhwng y rhywiau, defnyddio technoleg i wella busnes seneddol, a chyfranogiad pobl ifanc. Ein gweledigaeth yw bod y cymorth a ddarperir ar gyfer gweithgareddau rhyngwladol yn arddangos y cryfderau hyn ac yn cysylltu'n uniongyrchol â'n buddiannau polisi, ein buddiannau gweithdrefnol a’n buddiannau corfforaethol. Mae ein gweledigaeth yn edrych tuag allan, a hynny er mwyn gwella ymwybyddiaeth o’r Senedd drwy hyrwyddo ei gwaith. Mae hefyd yn nodi cyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth a chydweithio ar lefel ryngseneddol er budd pobl Cymru.

**Egwyddorion**

1. Canolbwyntio ar fusnes y Senedd, gan alluogi’r Senedd i gyflawni ei swyddogaeth graidd, sef cynrychioli buddiannau Cymru a’i phobl, drwy wella’r broses o gyfnewid gwybodaeth, syniadau a phrofiad.

2. Cydnabod gwerth a phwysigrwydd meithrin enw da sefydliadol a rhyngwladol y Senedd.

**Amcanion**

1. Rhannu a chaffael - yr arferion seneddol gorau yn rhyngwladol.
2. Codi proffil y Senedd - ar lwyfannau rhyngwladol.
3. Dylanwadu – deall penderfyniadau allanol a dylanwadu arnynt.

**Mecanweithiau cyflawni**

**Atebolrwydd**

cynllun cyflawni corfforaethol / cynllunio gwasanaethau / adroddiadau blynyddol

# 3. Atodiad B – Mecanweithiau Cyflawni

## Ymgysylltu ag Ewrop a strwythurau ar ôl Brexit

Yn sgil Brexit, mae strwythurau newydd wedi dod i'r amlwg ar gyfer hwyluso deialog a chysylltiadau parhaus â gwledydd, rhanbarthau a sefydliadau'r UE. Megis dechrau y mae'r strwythurau a'r sefydliadau newydd dan sylw, a byddant yn esblygu drwy gydol y Senedd hon. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynrychioli meysydd gwaith newydd i'n Haelodau ac i Gomisiwn y Senedd.

Mae'r strwythurau hyn yn cynnwys, ymhlith eraill, Grŵp Cyswllt y DU – Pwyllgor y Rhanbarthau, a Chynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE.

Bydd y gwaith hwn, ac unrhyw ofynion o ran cefnogi Aelodau i ymgysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau'r UE, yn cael eu cefnogi gan swyddfa'r Senedd ym Mrwsel.

Mae'r Senedd, ei Phwyllgorau a'i Haelodau, gyda chefnogaeth Comisiwn y Senedd, wedi meithrin perthynas waith agos â'r UE, a bydd y berthynas hon yn cael ei chynnal mewn meysydd sy'n cyflawni amcanion y fframwaith hwn. Mae'r Senedd yn cydweithio'n agos â sefydliadau Cymreig eraill sydd wedi'u lleoli ym Mrwsel, ynghyd â swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel, er mwyn meithrin enw da fel partner adeiladol a gwerthfawr.

## Cymorth i'r Aelodau a chynrychiolwyr swyddogol ar rwydweithiau rhyngwladol a rhyngseneddol:

Drwy'r sefydliadau hyn, gall yr Aelodau a staff y Comisiwn ddysgu o brofiadau cyffredin seneddwyr eraill, a thrwy hynny, gallant gefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus.

### Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad

Mae gan y Senedd gangen weithredol o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Mae ein haelodaeth o'r Gymdeithas yn cynnig cyfleoedd i Aelodau o'r Senedd, yn ogystal â swyddogion y Comisiwn a phobl ifanc. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys gwasanaethu ar Bwyllgor Gwaith Rhyngwladol y Gymdeithas a phwyllgorau sy'n ymdrin â phynciau penodol, cynnal cynadleddau a chynnal cyfarfodydd rhyngwladol pwysig.

Mae rhwydweithiau a chynadleddau blynyddol craidd y Gymdeithas yn cynnwys:

– Cynhadledd (Ryngwladol) Seneddol y Gymanwlad (CPC)

– Cynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Gwledydd Môr y Canoldir (BIMR)

– Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR (CWP)

– Senedd Ieuenctid y Gymanwlad (CYP)

– Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau (CPwD)

Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon (BIPA) – Y Dirprwy Lywydd sy'n cadeirio gwaith y Senedd yng Nghynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon, a'r Dirprwy Lywydd fydd yn arwain dirprwyaethau'r Senedd i Gyfarfodydd Llawn BIPA ddwywaith y flwyddyn. Bydd Aelodau enwebedig y Senedd ar gyfer BIPA yn cymryd rhan mewn pwyllgorau dynodedig.

## Y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd

Fel arweinwyr y Senedd, mae'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn gweithredu fel llysgenhadon ac yn chwarae rôl bwysig yn y protocolau sy'n gysylltiedig â chynnal ymweliadau, cyfarfodydd a digwyddiadau blaenllaw, er enghraifft gyda Llysgenhadon, Uchel Gomisiynwyr, Llefarwyr a gwesteion rhyngwladol eraill sy'n ymweld â'r Senedd. Gallai'r digwyddiadau blaenllaw hynny gynnwys cynnal cynhadledd BIMR, yn dilyn llwyddiant y digwyddiadau a chynadleddau a gynhaliwyd yn gynnar yn y Chweched Senedd.

Gallant hefyd arwain ar y broses o gynnal ymweliadau allanol a chymryd rhan mewn cynadleddau a rhaglenni sydd â ffocws clir ar ddysgu a chyfnewid arferion seneddol gorau, a hynny mewn meysydd sydd o ddiddordeb penodol i'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd a'r Comisiwn, ac sy'n cydweddu â'u blaenoriaethau strategol.

## Ymweliadau rhyngwladol

O dan y fframwaith hwn, caiff cynigion eu cyflwyno ar gyfer cynnal ymweliadau allanol sydd â ffocws strategol yn ystod y Chweched Senedd, ynghyd â rhaglenni ar gyfer ymweliadau mewnol sydd â ffocws seneddol clir ac sy'n cynnig cyfleoedd hefyd i'r Senedd elwa ar unrhyw waith ymgysylltu.

Ymweliadau allanol – mae'n bwysig bod dibenion a buddion ein hymweliadau yn glir. Dylid eu gwerthuso fel rhan o’r gwaith o ddatblygu unrhyw gynigion, ac o safbwynt unrhyw lwyddiannau a ddaw yn sgil pob ymweliad. Gallai hyn gynnwys

•Ymweliadau fel rhan o'n haelodaeth o rwydweithiau rhyngwladol;

•Ymweliadau rhagweithiol â gwledydd a seneddau sydd o ddiddordeb arbennig i’r Senedd, gyda’r bwriad o ddysgu am bolisïau ac arferion gorau mewn mannau eraill, yn ogystal â manteisio ar gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth am Gymru, y Senedd a’n gwaith fel democratiaeth; a

•Meithrin gallu mewn gwledydd sy'n datblygu.

Ymweliadau Mewnol – maent yn cynnig cyfleoedd i’r Senedd groesawu dirprwyaethau rhyngwladol i Fae Caerdydd, yn ogystal â’u croesawu’n rhithiol, er mwyn arddangos y Senedd, rhoi cyfle i bobl ddysgu mwy am y Senedd fel sefydliad arloesol, a rhoi cyfle i’r Llywydd, y Comisiynwyr ac Aelodau o’r Senedd gwrdd â chymheiriaid rhyngwladol er mwyn trafod arferion seneddol da.

### Cydweithio â Llywodraeth Cymru

Bydd y Senedd, lle bo hynny’n ymarferol ac yn briodol, yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar raglenni ymweliadau rhyngwladol ar y cyd, gan nodi cyfleoedd sydd o fudd i bawb ac sy’n gydlynol o ran hyrwyddo Cymru a democratiaeth Cymru.

### Strategaeth Cyfnewid Gwybodaeth

Mae tystiolaeth ymchwil sy’n drylwyr ac yn ddiduedd yn hanfodol ar gyfer gwaith craffu effeithiol a deddfu da. Nod y strategaeth hon yw ehangu, dwysáu ac amrywio'r dystiolaeth sydd ar gael i'r Senedd, er mwyn:

- gwella ansawdd y gwaith craffu, a
- chynyddu effaith y gwaith ymchwil.

Un o amcanion strategol y Strategaeth Cyfnewid Gwybodaeth yw sicrhau mwy o amrywiaeth o ran y dystiolaeth a ddefnyddir gan y Senedd. Bydd y nod hwn yn cael ei gyflawni drwy greu 'rhwydwaith gwybodaeth', gyda phartneriaethau ehangach a mwy ffurfiol er mwyn cynyddu'r gronfa o arbenigwyr y mae gan y Senedd gysylltiad â hwy, gan gynnwys yn rhyngwladol.

Yn ogystal, bydd ymgyrch strategol i wneud y gorau o’r arbenigedd, y sgiliau a’r profiad sydd ar gael yn fewnol, a bydd elfennau o'r rhain wedi'u seilio ar brofiadau rhyngwladol.

Bydd y Comisiwn yn ceisio rhannu ein harbenigedd, ein sgiliau a'n profiad ein hunain yn ehangach gyda Seneddau eraill, myfyrwyr a staff newydd. Byddwn yn cyfrannu at lenyddiaeth academaidd ar y Senedd ac astudiaethau seneddol, ac yn defnyddio ein cysylltiadau cyfnewid gwybodaeth ar gyfer dysgu a datblygu staff drwy gymrodoriaethau gwrthol a secondiadau.

## Materion Allanol a Chyfansoddiadol, y Gwasanaeth Trawsnewid Strategol, Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau, Ymchwil y Senedd

Bydd y gwasanaethau hyn yn darparu cyfleoedd i’r Aelodau, swyddogion ac eraill ddeall penderfyniadau allanol sy’n effeithio ar waith y Senedd a dylanwadu arnynt (gan gynnwys rhwymedigaethau rhyngwladol y mae’r Senedd yn gyfrifol am eu rhoi ar waith), a chyfleoedd i godi materion ar lwyfannau rhyngwladol sy’n cael effaith sylweddol ar fywydau bob dydd pobl Cymru.

Gall y wybodaeth a gesglir drwy’r rhwydweithiau rhyngwladol y mae'r Aelodau’n cymryd rhan ynddynt gyfrannu at y gwaith craffu a wneir gan bwyllgorau’r Senedd.

Ar hyn o bryd, mae polisi a gweithgarwch rhyngwladol yn rhan bwysig o gylch gwaith pedwar o bwyllgorau’r Chweched Senedd. Mae’r gofyniad i’r Senedd gymryd rhan mewn meysydd gweithgarwch rhyngwladol, fel mabwysiadu cytundebau masnach ryngwladol newydd, wedi cynyddu’n sylweddol yn sgil Brexit. Mae'r cytundebau hyn, ynghyd â meysydd gwaith newydd, yn dod â chyfleoedd ymgysylltu newydd a'r potensial ar gyfer meithrin perthnasoedd newydd. Fodd bynnag, maent hefyd yn dwysáu’r angen i sicrhau bod y berthynas rhwng cyfranogiad y Senedd mewn rhwydweithiau allanol a gweithgarwch rhyngwladol, a gwaith ei Phwyllgorau a’i Haelodau unigol, yn destun cydweithio a synergedd. Bydd y mecanweithiau a gaiff eu datblygu o dan y fframwaith hwn yn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy’n codi.

Mae gan swyddogion y Comisiwn gysylltiadau â rhwydweithiau rhyngwladol amrywiol, ac maent yn cymryd rhan yn y rhwydweithiau hyn, gan gynnwys Cymdeithas y Clercod wrth y Bwrdd, Cymdeithas Clercod wrth y Bwrdd Awstralia a Seland Newydd (ANZACATT), Cymdeithas Clercod wrth y Bwrdd Canada (CATS), a Chymdeithas Clercod ac Ysgrifenyddion Deddfwriaethol America (ASLCS).  Yn ogystal, mae perthnasoedd dwyochrog yn parhau i gael eu datblygu

mewn achosion lle mae arferion seneddol yn cael eu cyfnewid, yn aml gyda gwledydd sy'n datblygu, a hynny er mwyn gwella gwaith craffu ac arferion seneddol yn fwy cyffredinol.

## Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Mae gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu allanol y Comisiwn yn fodd i wella enw da'r Senedd – sydd wrth galon democratiaeth Cymru – a dangos effaith hynny. Bydd y tîm Cyfathrebu a'r tîm Ymgysylltu yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hyrwyddo ein gwaith rhyngwladol er mwyn gwella ein henw da fel Senedd flaengar ac arloesol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Comisiwn ar gyfer y Chweched Senedd.

Bydd y timau hyn hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at y gwaith hwn, er enghraifft drwy weithio i hyrwyddo arloesi ym maes ymgysylltu, gan gynnwys gwaith digidol a Senedd Ieuenctid Cymru. Mae pobl ifanc yn cael cyfleoedd i gyfranogi ar lwyfannau rhyngwladol drwy rwydweithiau seneddol y Senedd, a bydd hyn yn cael ei hwyluso gan y Comisiwn, gyda'r bobl ifanc yn cynrychioli Cymru ac yn gweithredu fel llysgenhadon ar gyfer y Senedd.

## Corfforaethol

Mae rhai o wasanaethau'r Comisiwn yn sail i'r arloesi amlwg a'r arferion da seneddol na fyddai'r Senedd yn gallu meithrin proffil hebddynt.

Mae'r fframwaith rhyngwladol yn caniatáu i bob gwasanaeth asesu a meincnodi'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, gyda golwg ar sicrhau ansawdd y gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r Comisiwn y cytunwyd arnynt ar gyfer y Chweched Senedd. Mae hyn yn ymestyn ymhell y tu hwnt i ddarparu cymorth seneddol mewn cyd-destun amlwg. Rydym yn rhoi cynaliadwyedd wrth galon popeth a wnawn, ac yn datblygu'r gweithlu, gan ganiatáu iddynt feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt ym maes technoleg, rheoli ariannol, rheoli prosiectau neu lywodraethu effeithiol. Mae cyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth a phrofiad  ar draws gwasanaethau'r Comisiwn, boed hynny er mwyn rhannu neu feithrin arbenigedd.